

Cwmni

Papur Sir Caerffili: Cwm Aber, Ebwy, Rhymni a **Sirhywi**

Rhifyn 220

Pris £1

Mis Mawrth 2020



PWYLLGOR A SWYDDOGION

Cadeirydd: Robert Dutt

Ysgrifennydd Cofnodion: Ann Lewis



*Ariennir yn
rhannol gan
Lywodraeth
Cymru*

Trysorydd: Eyron Thomas e.thomas119@btinternet.com

Golygydd: Ben Jones benamary2000@yahoo.co.uk 02920 862428 07891916046

Ysgrifennydd: Marian Fairclough faircloughmarian@gmail.com 02920 885151

Cynorthwy-ydd: Jan Penney

Dosbarthu a Golygydd Lluniau: Mary Jones

Y Pwyllgor: Eirlys Thomas, Gareth W. Williams, Dilys Williams,

Ieuenctid: Morgan Roberts, Swyddog Prosiect Llais, **Hysbysebu:** Bethan Jones, Menter Iaith

Gweplyfr/ Facebook:  Papur Bro Cwmni

Gwefan: menter.aerffili.cymru/ 

e-bost: [Golygydd@papurcwmni.cymru/](mailto:Golygydd@papurcwmni.cymru) benamary2000@yahoo.co.uk

Cedwir yr hawl i gwtogi neu newid erthyglau neu luniau yn unol â gofynion golygyddol.

Argraffu Tower Print, Uned 12a, Ystâd Ddiwydiannol Tŷ Bedwas, Caerffili, CF83 8DW

Bethel



Beth am hurio ystafell eang ar gyfer dosbarthiadau neu gyfarfodydd?

Dewch i gapel Bethel, Heol Nantgarw, Caerffili, CF83 3FB

Dim ond £8 yr awr gan gynnwys y gwres.

Cysylltwch ag Allan Cook ar cookatradyr222@gmail.com

Capeli Mis Mawrth

Tonyfelin y Bedyddwyr, Caerffili

Mawrth 1: 10.30 a 6.00 : Oedfa Gwyl Dewi

Mawrth 8 : 10.30 a 6.00 : Parchg Milton Jenkins

Mawrth 15: Yn Bethel

Mawrth 22 : 10.30 : Hefin Jones 6.00 : Parch Glyn Tudwal Jones

Mawrth 29 : 10.30 : I'w drefnu 6.00 : Parchn. Ifan a Catrin Roberts

Capel y Groeswen

8fed o Fawrth Gwasanaeth Cymun

Y Parch. Malcolm Shapland

3:00

Bethel yr Annibynwyr, Caerffili

Mawrth 1: 10.30. Parchg. Robert Owen Griffith (C)

Mawrth 8: I'w drefnu

Mawrth 15: 10.30 Alun Johnson

Mawrth 22: 10.30 a 6 y.h. Tonyfelin

Mawrth 29: 10.30. Gwasanaeth Eglwys.

Penuel, Rhymni

Mawrth 1: Parchg T. Jones

Mawrth 8: Dr G. Jones

Mawrth 15: Parchg E. Powell

Mawrth 22: Parchg E, Morgan

Mawrth 29: Parchg M. Marsden

Ydy afon Rhymni'n dirion?



Dangosodd stormydd Chwefror mor gryf yw natur - ac mor wan yw ein hymdrechion i wrthsefyll ei nerth. Bydd lluniau o'r llifogydd yn ysgubo trwy strydoedd Pontypridd yn aros yn y cof am flynyddoedd, ac yn ein hatgoffa efallai o rybudd yr hen driban,

“Mae Taf yn afon rwysgus
Mae Taf yn dra pheryglus
Dygodd Taf fywyd cant...”.

Afon dirion yw Rhymni, yn ôl triban arall, ond ni allwn fod yn siwr o gywirdeb hwnnw ar ôl gweld llif y dŵr trwy ganol Ystrad Mynach, a'r llynnoedd ar gae rygbi Bedwas! Mae enwau lleol ein bro yn dystiolaeth sicrach na'n barddoniaeth, efallai. Wedi'r cyfan, daeth rhai o'r lluniau mwyaf trawiadol o effaith storom Dennis o bentref Nantgarw. Oes angen dweud mwy? Mae'r enw'n rhybudd ynddo'i hun – a llifogydd yn Nantgarw roddodd derfyn ar fasnach ar Gamlas Morgannwg ym 1942.

Mae ystyr enw afon Rhymni hefyd yn awgrymu bod nerth arbennig iddi. Yn ôl llyfr meistrolgar David Thomas ar enwau lleoedd bwrdeistref Caerffili, 'daw'r enw o'r gair Hen Gymraeg “rhwmp”, sef “taradr” neu “ebill” - *gimlet* yn Saesneg. Mae'n awgrymu bod yr enw'n disgrifio “sut y mae'r afon wedi tyllu neu gerfio'i ffordd trwy'r cwm” – ac yn dal i wneud hynny, fel y gwelsom.

Mae enwau eraill yn y cwm yn ategu hyn. Mae'r terfyniad –*ach* yn digwydd yn Llancaeach, Ystrad Mynach a Llanbradach, a hen air yw hwn eto, yn golygu “cors”. Er bod rhai'n barod i gysylltu enw Ystrad Mynach gyda hanes rhamantus mynach a ddiennyddiwyd yno am garwriaeth anghyfreithlon, mae eraill yn ei ddehongli fel disgrifiad daearyddol syml o gwm llydan gyda gwaelod gwastad (sef *ystrad*) ar ymyl (*min*) y gors—sy'n cyfateb yn agos at leoliad y pentref, a'i hanes yn llifogydd

Mae enw Llancaeach yn cyfeirio efallai at addoldy yno (sef “llan”), neu fe all taw “Glancaeach” oedd yr ffurf gwreiddiol. Ond beth bynnag oedd yr elfen gyntaf yn yr enw, mae'n cyfeirio'n sicr at nant Caeach, sy'n rhedeg trwy'r pentref i ymuno gydag afon Rhymni yn Ystrad Mynach.

“Glan Nant Bradach” yw'r ffurf gwreiddiol ar Lanbradach, ac mae'r gair *bradach* yn digwydd yn y Wyddeleg, gyda'r ystyr “lladrata”. Ond mae'n debyg taw'r gair Cymraeg cyfarwydd “brad” sydd yma – ‘... yn yr ystyr bod y nant yn fradwrus, h.y. yn dueddol o lifogydd sydyn, dinistriol...’, medd David Thomas. Gall bob un sy'n gyfarwydd â Llanbradach dystio i hynny!

Wrth drafod ystyr Llanbradach, mae David Thomas yn gofalu nodi'r posibilrwydd bod yr enw gwreiddiol yn cyfeirio at “brad” y mynach gafodd ei ddiennyddio yn Ystrad Mynach. Ond er mor fawr yw fy mharch tuag at Mr Thomas, ni allaf gytuno gydag ef y tro hwn. Gwyddom yn iawn am hoffter y Cymry dros y canrifoedd o greu chwedlau i esbonio eu henwau lleoedd – mae'r Mabinogion yn frith ohonynt. Does dim tystiolaeth i ategu'r stori werin leol am y mynach a'i dynged ofnadwy – ac mae digon o dystiolaeth o'n cwmpas eleni o nerth ein hafonydd a'n nentydd!

Dr Elin Jones



Ymddeoliad Hapus!

Wedi bron i ddeuddeg mlynedd wrth y llyw yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni mae'r cyfaill Owain ap Dafydd wedi penderfynu ymddeol adeg y Pasg. Mae e a'i wraig Rhian, sy'n bennaeth ar Ysgol Gyfun Gymraeg Casnewydd, Gwent Is Coed, yn dod a'i gyrfa hithau i ben â theimladau digon cymysg oherwydd, er eu bod yn edrych ymlaen at saib cwbl haeddiannol, dydyn nhw ddim mewn brys i adael swyddi a fu'n ganolbwynt bywydau gwaith y maent wedi eu mwynhau'n fawr. Mae Owain yn fwy na pharod i drosglwyddo'r awenau i un o'i gydweithwyr yng Ngellihaf gan mai Matthew Webb yw'r un fydd yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb sylweddol hwn wedi'r gwyliau.

Wedi mwynhau addysg gyflawn o Ysgol Gymraeg Tŷ Derwen, Maesteg, ac Ysgol Gyfun Gymraeg Ystalyfera, aeth Owain ymlaen i raddio mewn peirianeg cyn dod yn athro Ffiseg yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni. Yn ystod ei yrfa gwelodd yr ysgol yn tyfu i'r graddau ei bod yn cynnig addysg gyflawn i 1,740 o ddisgyblion erbyn hyn - 1,800 ym mis Medi.

Hon yw'r ysgol fwyaf yn y sir, yr ysgol gyfun cyfrwng Cymraeg fwyaf yng Nghymru ac, felly, yr ysgol gyfun Gymraeg fwyaf yn y byd! Ac i gyflawni'r gwaith mae'r staff addysgu wedi tyfu o 50 i 123 o athrawon gyda 40 o staff cynorthwyol. Un o'r nifer o bethau sydd yn rhoi boddhad mawr yw'r ffaith mai cynnyrch ysgolion cyfrwng Cymraeg y cymoedd, yn enwedig Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, yw canran sylweddol y staff. Hefyd, mae arferion athrawon wedi newid gymaint fel bod nifer yn dewis gweithio rhan amser er mwyn gallu rhoi mwy o amser i'w teuluoedd. Ac mae'r math hyn o drefniadau, ym marn Owain, yn gallu cyfoethogi'r addysgu.

Gwelwyd tro mawr ar fyd yn ystod cyfnod Owain. Yr un mwyaf amlwg efallai oedd gweld yr ysgol yn symud o fod â phum safle yn 2002 i fwynhau bywyd mewn ond dwy erbyn hyn. A'r ail, wrth gwrs, yw'r tyfiant sylweddol ers agor safle'r Gwyndy, yng Nghaerffili, yn 2013. A chymaint haws yw rheoli dwy safle nawr yn enwedig yn sgil datblygiadau mewn cyfathrebu electronig. Difyr yw nodi mor anodd oedd hi yn yr hen ddyddiau i gyfathrebu rhwng yr ysgol yn Aberbargod a'r prif safle yn nhref Bargod.



Oherwydd tip glo Aberbargod doedd hi ddim yn bosib defnyddio ffônau 'walkie talkies'. Ond bellach mae cyswllt uniongyrchol, mewnol rhwng Gellihaf a'r Gwyndy.

Mae'r ysgol hefyd wedi adlewyrchu'r newidiadau sydd mewn cymdeithas. Caiff plant bregus lawer mwy o gefnogaeth erbyn hyn, llawer ohono'n gefnogaeth arbenigol gan y staff. Mae Owain yn cyfrif bod rhyw 40% o gostau arweinyddiaeth yn dod o dan y pennawd lles a chefnogi plant. Mae staff Cwm Rhymni, wrth gwrs, yn gwneud llawer iawn mwy na addysgu. Datblygu'r strwythur hwn ar gyfer disgyblion ag Anghenion Addysgu Ychwanegol sydd wedi rhoi'r boddhad mwyaf i'r pennaeth.

Er bod prinder athrawon Ffiseg yn dal i fodoli, ni themtir Owain i ddod nôl i gyflenwi, na chwaith Rhian i gynnig ei harbenigedd mewn Cemeg. Edrychant ymlaen at dreulio mwy o amser yn eu cartref draw yn Llydaw a breuddwyd neilltuol Rhian yw treulio mis yn Fenis. Daw hyn yn dipyn o syndod i rai o'r disgyblion, oherwydd roedd si ar led fod eu prifathro yn byw ar ynys oddi ar arfordir Llangrannog ac felly mai mewn hofrennydd y deuai i'r ysgol bob dydd!


Dyddiad y wers ora' i mi ei derbyn pan oeddwn yn ddisgybl yn Ysgol Gyfun Beaumaris, neu fel maen nhw'n dweud ar glawr y llyfr gwaith, *"The David Hughes County Secondary School, Beaumaris"*, oedd dydd Llun yr 21ain o Dachwedd 1955. Gwers Gymraeg oedd hi dan law'r athro Cymraeg, John Lazarus Williams, gwers farddoniaeth nodais yn y llyfr gwaith. Gwaith dosbarth a'r testun oedd "Hir a Thoddaid". Roedd Fform 4 yn ystod yr ail hanner tymor o'r flwyddyn yn trafod mesurau barddoniaeth. Roedd John L., fel yr oedd yn cael ei alw y tu ôl i'w gefn, yn barod wedi cyflwyno dau englyn i'r dosbarth, sef "Awstin 7" ac "Ym Mynwent Trawsfynydd". Ddiwedd mis Hydref y flwyddyn honno buom yn sgwennu yn ein llyfrau, "Moelni" - soned wedi'i sillafu a dwy "n" gen i, gan T. H. Parry-Williams.

Wrth gyflwyno'r mesur Hir a Thoddaid i ni, dywedodd yn ei lais awdurdodol, **"Nid yn unig i ysgrifennu yn daclus yn ein llyfr ond i'w ysgrifennu mewn aur ar lechi ein calon!"** Ni nodais yn fy llyfr mai o awdl ddylanwadol "Ymadawiad Arthur" y codwyd y tri phennill. Fe nodais wrth ystyried y trydydd Hir a Thoddaid mai T. Gwynn Jones oedd yr awdur. Yn y wers uchod fe ddyfrhaodd John L. Williams, y clamp o genedlaetholwr, yr hedyn o ddiddordeb tuag at farddoniaeth a llenyddiaeth oedd wedi ei blannu ynof ar fy aelwyd, Yr Orsedd, Rhoscefnhir. Onid oedd sôn am Cynan mor aml i'w glywed amdano, mor aml ag y soniwyd am Billy Wright; R. Williams Parry a Tom Finney a Dyfnan, yr englynwr lleol, a Tommy Jones, Everton a Phyllheli.

Cawod hyfryd y prynhawn oedd sylw John L. Williams, sylw yr arhosodd ei ddiferion arnaf hyd heddiw. Sylw a ddangosodd barch at y farddoniaeth orau. Sylw a osododd y safon y dylwn ei chynabod: safon T. Gwynn Jones.

Ym Mangor, dinas enedigol fy mam, yr enillodd T. Gwynn Jones ei Gadair gyntaf yn y Genedlaethol yn 1902 am ei awdl "Ymadawiad Arthur" - awdl heb fod dros 750 llinell. Mae'r tri Hir a Thoddaid cyn diwedd yr awdl yn gân am Ynys Afallon. Bob tro y clywaf y llinell agoriadol yn yr Hir a Thoddaid cyntaf,

"Draw dros y don mae bro dirion nad ery.....", rydw i nôl yn yr ystafell ddosbarth gyntaf ar lawr cyntaf yr ysgol. Yr ystafell yng ngheg dop y grisiau dur lle yr arferai'r hanesydd Anthony D. Carr fel preffect gadw llygaid arnom! Rydw i'n dal i glywed John L. Williams yn eu llefaru! Rydw i newydd sylweddoli, wrth ddarllen y llinell yn yr hen lyfr gwaith, i mi adael yr enw "bro" mewn dyfynodau allan ohoni! Y llinell wreiddiol, yn yr awdl, oedd "Draw y mae gwerddon hirion nad ery".



Dysgais dair ffaith am T. Gwynn Jones (1871-1949) ar ôl i fy hen athro Cymraeg gyflwyno ei Hir a Thoddiadau i ni. Yn gyntaf, cyhoeddodd yn 1891 lyfryn "yn nyddiau'r Parchedig Richard Owen". Bu farw'r Parchedig Richard Owen, y diwygiwr, ar yr unfed ar bymtheg o Chwefror 1887 yn Nhŷ Croes, Rhoscefnhir. Yn ail, haf 1909 ymwelodd Clwb Awen a Chân Caernarfon, ac roedd T. Gwynn Jones yn aelod ohono, â'r Dafarn Goch, cartref Goronwy Owen yn Llanfair Mathafarn Eithaf yn Ynys Môn. Tybed wrth deithio yno o Gaernarfon, ac wedi croesi Pont y Borth y teithiodd yr aelodau ar hyd y ffordd am Amlwch? Wrth wneud, roeddent ymhen pedair milltir yn cyrraedd bro fy mebyd a mynd heibio i Dŷ Croes! Yn drydydd, yn ystod y Rhyfel Mawr safodd Gwynn Jones yn gadarn fel gwrthwynebwyr cydwbybodol.

Prynhawn dydd Llun, 21ain o Dachwedd 1955, yn ystod y wers orau a gefais, clywais frawddeg gan yr athro Cymraeg John L. Williams, sydd wedi aros yn fyw yn y cof ac wedi dylanwadu yn drwm arnaf.

Yr Hir a Thoddaid cyntaf allan o'r awdl enwog "Ymadawiad Arthur"

Draw dros y don mae bro dirion nad ery
Cwyn yn ei thir, ac yno ni thery
Na haint na henaint fyth mo'r rhai hynny
A ddêl i'w phur, rydd awel, a phery
Pob calon yn hon yn heiny a llon,
Ynys Afallon ei hun sydd felly.

T. Gwynn Jones

Ers dod yn daid fy hun sawl gwaith erbyn hyn, rwy wedi dod yn ymwybodol fod y wefr o fynd i weld Taid yn pylu fel yr â amser yn ei flaen a'r wŷrion yn tyfu a phethau a phobol eraill yn dod yn llawer pwysicach yn eu bywydau. Aiff y cof am y dyddiau melyn hynny yn raddol bellach.

Rhyw wyth oed oeddwn i pan fu farw fy nhaid i ac mae nghof fi amdano braidd yn niwlog a dweud y lleia. Dim ond yn achlysurol fyddwn i'n mynd efo Mam i'w weld o ond roedd o bob amser yn falch o ngweld i yn ôl pob sôn. Dw i ddim yn ei gofio fo'n siarad ryw lawer. Tŷ cownsil yn y Llan oedd ganddo fo a Nain wedi iddyn nhw adael y ffarm. Mi alla i ei gofio fo yn eistedd yn ei gadair fawr bren o flaen y tân; un digon anghyfforddus yn fy marn i. Prin oedd o'n codi ohoni gan fod crud cymalau wedi fferru ei esgyrn at ei gilydd gan flynyddoedd o godi gwair a godro. Roedd cerdded felly yn araf, anodd a phoenus. Heddiw mi fyddai o wedi cael cluniau newydd, ond ym mhumdegau'r ganrif ddiwetha, doedd llawdriniaeth o'r fath ddim yn bod a bodlonodd ar ei segurdod gorfodol. Roedd ganddo fo sioc o wallt gwyn, trwyn fel eryr a'r clustiau mwya welais i erioed. 'Pam mae'ch clustiau chi mor fawr, Taid?' holais i iddo fo un tro. 'Mae dy glustiau di'n dal i dyfu ar hyd dy oes di,' meddai'n wybodus. Roedd rhywun wedi dweud wrtha i yn yr ysgol bod clustiau rhywun yn dal i dyfu ar ôl i chi farw hyd yn oed, ac roedd gen i'r syniad yn fy mhen wedyn, allwn i mo'i symud, o Taid yn ei arch â chlustiau fel elifant. Mi fues i'n tsiecio yn y drych am flynyddoedd wedyn i weld os oedd fy nghlustiau innau yn dangos arwyddion o dyfiant anarferol. Doeddwn i ddim yn meddwl bod Taid wedi bod yn ifanc erioed ac roedd hi'n syndod i mi ei weld o yn ei lun priodas yn heini a llon efo Nain wrth ei ochr y tu allan i Capel Cefn. Roedd o'n edrych yr un ffunud â Spike Milligan.

Doedd ganddo fo'r un dant yn ei ben, gan fod deintyddion o'r oes honno'n tybied bod rhai gosod yn llawer gwell na rhai naturiol, er mor anghyfforddus oedden nhw i'r sawl oedd yn eu gwisgo, ac o'r herwydd roedd Taid yn aml yn eu tynnu a'u gosod nhw ar y sillf ben tân, mewn darn o bapur newydd i'w cuddio rhag y byd. Yn aml byddai'n cysgu yn ei gadair wedyn â cheudwll diddannedd yn llydan agored yn ei ben yn chwyrnu'n braf. Yn anffodus, roedd Nain yn sticlar am daclusrwydd. Mi allwch chi weld be sy'n dod; yn ddiarwybod o beth oedd yn y darn aflêr o bapur ar y sillf, fe daflodd hi'r papur a'r dannedd cynwysedig i'r tân. Doedd Taid ddim yn hapus pan ddeffrodd o. Roedd hi'n fis a mwya cyn iddo fo gael set arall, ac am rheini ydw i am sôn.

Doedden nhw ddim yn ffithio'n rhy dda ac mi fydden nhw'n clecian pan fyddai o'n bwyta ac yn aml mi fydden nhw'n disgyn yn ei geg wrth iddo fo siarad. Daeth yn feistr ar eu dychwelyd i'w priod le gyda'i dafod. Yn wir penderfynodd y gallai'r llacrydd fod yn dipyn o nodwedd a gallai wneud sŵn clic-a-di-clac yn ei geg, fel rhywun yn chwarae

castanets. Credai ei fod yn plesio plant efo'r sŵn braidd yn *macabre* hwn. Doedd plant ddim mor siŵr. Roedd o wrth ei fodd yn eu clecian nhw'n ddisymwth pan oeddwn i'n digwydd pasio i'r gegin gefn, a minnau'n stopio a throi i edrych yn sydyn. Byddai yntau'n edrych yn freuddwydiol ddiwed trwy'r ffenest.

'Be?' holai wrth droi ata i.

'Chi wedi gwneud y clic-a-di-clac yna eto, ond do, Taid.'

'Pwy, fi? Na,' atebai gyda gwên ddanheddog.


Bu farw tua 1958, dw i'n meddwl a Nain yn fuan wedyn. Treuliodd gryn amser mewn cartref gofal wedi i'w gyflwr waethgu. Theimlais i mo'r golled yn fawr.

Flynyddoedd yn ddiweddarach, a minnau yn y coleg erbyn hyn, roeddwn i ar fy ffordd i nôl ffrind i mi o'r stesion yng Nghaerfyrddin; ar nos Sul ym mis Rhagfyr, dw i'n meddwl. Mini oedd gen i, ddim y cludiant mwya dibynadwy ond mi oedd o'n gwneud y tro fel arfer. Roedd hi wedi bod yn tresio bwrw trwy'r dydd ac am wythnos gyfan o beth ydw i'n ei gofio ac roedd y glaw yn drwm o hyd wrth i mi fynd ar fy nhaith. Efallai eich bod chi'n adnabod y ffordd i lawr heibio Cynwyl Elfed lle mae'r ffordd yn gyfyng a throellog a choed ar bob ochr ac Afon Gwili islaw a thipyn o ddibyn i lawr ati. Mae rheilffordd yr ochr draw. Mae'r ffordd yn ddigon tywyll yng ngolau dydd yn yr haf ond tua naw o'r gloch yn y gaeaf, roedd hi fel bol buwch a fawr neb arall o beth welwn i wedi mentro'r ffordd honno ar y fath dywydd.

Ryw hanner milltir oeddwn i wedi mynd i lawr y ffordd o'r pentref pan benderfynodd y mini gamfihafio. Roeddwn i wedi mynd trwy sawl pwll go ddwfn ar hyd y ffordd, oedd yn amlwg wedi cael effaith andwyol ar rywbeth yng nghrombil y peiriant. Pesychodd ambell waith i ddechrau ac roeddwn i'n gobeithio y byddai dal ati'n clirio beth bynnag oedd yn achosi'r anhwylder. Thyciodd hynny ddim a phenderfynodd y mini druan roi'r ffidil yn y to ar y siwrnai hon. Roedd cilfach gyfleus gerllaw ac roedd digon o fomentwm gen i i'w chyrraedd. 'Grêt!' meddyliais i. Ceisiais danio'r injan sawl gwaith ond gallwn glywed bod y batri'n dechrau colli egni. 'Grêt!' medde fi eto.



Ydych chi'n gallu dod o hyd i'r DEG gwahaniaeth rhwng y ddau lun?



C	E	N	N	I	N	P	E	D	R
W	Y	W	B	R	I	A	S	C	E
E	H	M	A	U	L	L	I	E	M
L	E	C	W	S	T	A	R	D	
Y	B	L	A	N	U	C	N	S	B
T	A	R	D	L	E	W	N	Y	A
N	M	E	A	F	G	I	O	H	N
A	L	I	O	M	E	N	Y	N	A
D	R	P	R	S	L	U	A	H	N
B	D	R	A	T	S	W	M	T	A

Mae 10 eitem o liw melyn, yn y chwilair. Ydych chi'n gallu dod o hyd iddyn nhw?

(Mae cliwiau i'ch helpu yn y lluniau uchod.)

Mae'r atebion ar waelod tudalen 15

Doedd dim amdani ond cerdded yn ôl i Cynwyl gan fod bocs ffôn yno. Gallwn ffonio'r orsaf o leia. Byddai ffôn symudol wedi bod yn handi, ond yn 1970 doedd neb wedi meddwl am y fath declyn. Roedd hi wedi stopio bwrw o leia a'r gwynt wedi gostegu. Caeais ddrws y car yn glep a dechrau cerdded.

Roedd hi fel y fagddu. Gallwn glywed rhu'r afon islaw oedd yn help i nghadw fi ar y trywydd ond roedd rhaid i mi droedio'n ofalus ar hyd y tarmac. Wedi sathru mewn sawl pwell o ddŵr, barnais mai doeth fyddai cadw un llaw ar y gwrych neu'r wal ar ymyl y ffordd i'm harwain i i'r cyfeiriad iawn, a dyna wnes i yn camu'n betrusgar ymlaen. O'r diwedd gallwn weld golau'r pentre o mlaen i yn y pellter. Yn sydyn clywais 'clic-a-di-clac' y tu ôl i mi. Troais yn sydyn i edrych. Doedd dim i'w weld yn y duwch. Troais ymlaen i barhau. Daeth y 'clic-a-di-clac' eto. Fferrais yn edrych yn ôl i'r tywyllwch a gweld dim.

Yn sydyn gallwn weld golau'n dod ar hyd y ffordd o gyfeiriad Caerfyrddin. 'Achubiaeth,' meddyliais a sefais yn stond i aros amdano. Chwifiais yn wyllt wrth iddo ddynesu.

Arhosodd y lori a sefais yng ngolau ei lampau. Gallwn weld mai lori'r cownsil oedd hi. Daeth y gyrrwr o'r cab i'm cyfarch. 'Ti'n olreit?' holodd.

'Wedi torri i lawr, yn cerdded yn ôl i'r pentre,' medde fi. 'Siawns am lifft?'

'So ni'n mynd i fynd i'r pentre heno, gwboi,' meddai. 'Pam?'

'O' ti ddim yn gweld?'

'Gweld be?'

'Hwnna,' meddai'r gyrrwr a chyfeirio y tu ôl mi.

Troais i edrych, ac yng ngolau lampau'r lori gallwn weld bod y ffordd wedi diflannu i geudwll a rhimyn o fwd wedi slefrian i lawr y llethr cyfagos.

'Blydi hel!' medde fi. 'Dw i newydd ddod ar hyd y ffordd yna.'

'Lwcus, boi. Dere, mae rhaff 'da fi. Gei di tow 'da fi i Gaerfyrddin.' Gallwn weld goleuadau pobl o'r pentref yn cerdded at y ceudwll yr ochr draw. 'Bydd yr heddlu 'ma cyn bo hir, fi'n credu,' meddai'r gyrrwr. Gosododd nifer o arwyddion yng nghanol y ffordd i rybuddio unrhyw deithwyr pellach. Esgynnais i yn ddiolchgar i'r cab, ond cyn cau'r drws, clywais 'clic-a-di-clac' yn y tywyllwch. Troais i edrych ond doedd neb yno.

Nid pawb sy'n sylweddoli fod gennym Senedd Ieuenctid yma yng Nghymru. Senedd yw hi ar gyfer pobol ifanc rhwng 11 a 18 mlwydd oed. Disgyblion yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yw cynrychiolwyr Sir Caerffili yn y Senedd, mae Ffion Griffith yn cynrychioli etholaeth Islwyn ac Aled Joseph sydd a'r fraint o fod yno ar ran etholaeth Caerffili.

Un o Faesycwmer yw Ffion Griffith, mae'n 17 mlwydd oed a mynychodd ysgol Trelyn cyn dod i Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yng Ngellihaaf. Addysgwyd ei thad yn Ysgol Gyfun Llanhari ac mae ei mam hefyd wedi dysgu Cymraeg. Ar hyn o bryd mae'n astudio ar gyfer arholiadau Lefel 'A' mewn Hanes, Saesneg, Mathemateg, Economeg a'r Fagloraeth Gymraeg.

Dywedodd wrth ymgeisio am ddod yn A.C.

"Dwi'n ymddiddori mewn gwleidyddiaeth ers imi gynrychioli Cymru mewn cynhadledd am Ddemocratiaeth yn Bratislafa a byddwn i'n llysgennad balch ar gyfer fy ardal. Rwy'n sylweddoli bod yr hawl i gael llais yn bwysig ac y dylai pobol ifanc gael cymaint o lais am faterion sy'n effeithio arnyn nhw ag oedolion. Erbyn hyn, mae pobl ifanc yn fwy ymwybodol o'u hawliau diolch i waith y Cynulliad Cenedlaethol ac ysgolion a'r ffordd orau iddyn nhw ddysgu mwy am wleidyddiaeth yw wrth gymryd rhan.

"Mae gwasanaethu ar gyngor fy ysgol ers 4 blynedd wedi fy ngwneud i'n hyderus wrth gyfathrebu. Gallaf wneud cysylltiadau effeithiol rhwng pobl ifanc a'r senedd, trwy'r cyfryngau cymdeithasol, ymweld ag ysgolion i glywed eu barn neu gynnal fforwm ieuenctid. Rwy'n un dda am wrando, yn siarad Cymraeg ac yn barchus iawn tuag at fy niwylliant fy hun a diwylliannau a chredoau eraill.

"Rwy'n gobeithio cynrychioli llawer o faterion pwysig i bobl ifanc, yn enwedig iechyd ac addysg, gyda llawer o bwysau ar bobl ifanc heddiw, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol, pwysau cyfoedion a chyflogaeth. Mae pobl ifanc yn haeddu gwell darpariaeth ar gyfer gofal iechyd meddwl ac addysg sy'n eu paratoi yn academiaidd, yn gymdeithasol ac yn foesol er mwyn bod yn ddinasyddion iach a gweithgar yng Nghymru."

Mae Ffion yn brysur iawn y tu allan i'r ysgol gan fod ganddi ddiddordebau amrywiol megis perfformio ac mae wedi bod yn dawnsio ers yn dair blwydd oed gan gynnwys ballet, tap a jazz, gan fynychu ysgol berfformio yn y Coed Duon. Mae hi'n hoff iawn o ganu, actio a chanu'r piano. Mae hefyd yn weithgar yng Nghlwb y Dreigiau sydd yn hyrwyddo defnydd y Gymraeg yn yr ysgol. Bu yn aelod o Fforwm Ieuenctid Sir Caerffili ond mae ei gweithgareddau eraill yn ei hatal rhag mynychu hwnnw mor aml ac y byddai'n hoffi.

Ei gobaith yw mynd ymlaen i'r brifysgol i astudio'r gyfraith. Ac yna i fod yn gyfreithwraig neu'n fargyfreithwraig ac, efallai, yn y pen draw y gwnaiff fentro i mewn i fyd gwleidyddiaeth.

Mae wedi dangos diddordebau ym myd gwleidyddiaeth yn fwyaf arbennig, Iechyd Meddwl, Sgiliau Bywyd, Heddwch a Chynladwyedd. Mae eisoes yn aelod o bwyllgor Iechyd Meddwl y Senedd Ieuenctid.



Senedd Ieuenctid

Mae Aled Joseph, cynrychiolydd etholaeth Caerffili, yn 15 mlwydd oed ac yn byw yn nhref Caerffili. Mynychodd Ysgol y Castell cyn parhau â'i addysg yn safle Gwyndy Ysgol Gyfun Cwm Rhymni. Mae ei fam a'i dad yn Gymry Cymraeg o bentref Cwm-gors sydd rhwng Cwm Tawe a Dyffryn Aman. Bu ei fam yn athrawes yn ysgol Sant Cenydd cyn dod i addysgu Bywydeg yn ysgol Cwm Rhymni am gyfnod. Ers hynny mae wedi ymuno â busnes ei gŵr, yntau wedi symud o ddarlithio ym Mhrifysgol Caerdydd i fod yn hyfforddwr bywyd.

Dywedodd Aled wrth ymgyrchu ar gyfer dod yn A.C. "Dwy eisiau bod yn y senedd ieuenctid achos hyd at hyn dwi wedi bod ar gyngor yr ysgol am flynyddoedd a nawr dwi eisiau helpu cyfleu llais yr ieuenctid am bethau pwysicach a phethau i wneud â'n dyfodol! Os dw'n cael fy newis i'ch cynrychioli byddaf eisiau rhoi mwy o arian tuag at ddiogelwch beicio a chreu mwy o lwybrau beicio i ddiogelu plant wrth feicio i'r ysgol. Hefyd, sbwriel! Mae sbwriel yn broblem fawr yn ein cymunedau a dwi'n credu dylen ni newid ailgylchu i fod yn haws i bawb. Yn olaf, bydda i eisiau sôn am Brexit. Achos yn y dyfodol bydd pobol ifanc fel ni eisiau cael swyddi neu fynd i goleg yn Ewrop ac mi fydd effaith Brexit yn lleihau ein dewisiadau.

"Mae gen i brofiad o fynegi barn a siarad yn swyddogol ag oedolion wrth fod ar gyngor yr ysgol ac wrth fod yn aelod o'r Scouts."

Ei brif flaenoriaethau yw,

- Brexit, ein dyfodol ac addysg
- Sbwriel ac ail gylchu
- Diogelwch beicio a llwybrau beicio



Aled Joseph



Hoff bynciau Aled ar hyn o bryd yw Drama, Dylunio a Thechnoleg a Chyfrifiadureg wrth iddo baratoi ar gyfer ei arholiadau TGAU. Bydd yn dewis ei bynciau lefel 'A' ar ôl gweld yr hyn sydd gan yr ysgol i'w gynnig.

Yn ystod ei hamdden bu'n weithgar gyda'r 'Scouts' ac yn un o'r 'Young Leaders' gyda'r trŵp 'Beavers' lleol. Mae hefyd yn gwirfoddoli drwy weithio yn siop elusen Shaw Trust. Mae'n rhan o Fforwm Ieuenctid Caerffili, Fforwm sydd yn cynnwys holl ysgolion y fwrdeistref gyda dros 100 o bobol yn mynychu'r cyfarfodydd sydd yn cael eu cynnal yn Nhŷ Penallta bob yn ail â'r Maes Manor.

Yn rhifyn mis Ebrill byddwn yn dangos pryd y sefydlwyd y Senedd Ieuenctid a sut cafodd yr Aelodau Cynulliad Ifanc eu hethol. Yna ym mis Mai ein bwriad yw cael ar ddeall gan ein Haelodau Cynulliad Ieuenctid yr hyn mae'r Cynulliad ei hun wedi'i gyflawni a'r hyn sydd yn bosib.




Awduron y Dyfodol - Tafod y Ddraig

Ar ddiwedd Tymor yr Haf 2019 fe arhosodd grŵp bach o ddisgyblion a'u rhieni ar ôl ysgol am 9 sesiwn i weithio ar brosiect cyffrous iawn gyda chwmni Petra Publishing - creu llyfr proffesiynol 'Tafod y Ddraig' yn hybu'r Gymraeg!

Cafodd ein teuluoedd y fraint o weithio gyda'r awdur proffesiynol Mike Church a'r darlunydd

ysbrydoledig Siôn Tomos Owen. Roedd y prosiect yn llawer o hwyl ac roedd e'n wych cael gweithio fel rhan o dîm creadigol. Roedd gweld ein syniadau a'n geiriau'n dod yn fyw yn fendigedig. Ni oedd yn gwneud yr holl benderfyniadau, gan gynnwys sut oedd y lluniau'n edrych. Fe weithion ni ar bob agwedd o greu

llyfr o'r geiriau i'r graffeg. Mae'n deimlad braf i weld ein henwau mewn print fel awduron y llyfr. Mi fydd y llyfr ar werth yn y siopau cyn hir!



Llynedd cafon ni'r cyfle i weithio gyda'r awdur Dan Anthony a braf oedd gallu cymharu arddull llyfrau Dan â'n llyfr ni. Llyfr dwyieithog yw'n llyfr ni yn rhoi hanes Dewi, bachgen a oedd yn cael ei fwllian am siarad Cymraeg. Roedd ei gariad at yr iaith Gymraeg yn rhoi'r cryfder iddo wrthsefyll y bwlis. Neges bwysig i bawb! Mae'n bwysig i ni roi'r neges ein bod yn falch o'r iaith Gymraeg a chael rhannu hyn gyda chynulleidfa ddi-Gymraeg. Mae'r llyfr hefyd yn ffordd dda i bobl ddysgu geiriau newydd yn Gymraeg.

Y Sgwad Sgwennu: Evie Jones, Lewis Jones, Tomos Jones-Rossiter, Scarlett Humphreys, Ashley Pugh, Ciara Williams, Sophie Mc Dermott, Ffion Wallbank- ac aelodau'r teulu!

Hoffem ni ddiolch i Mike, Siôn, Tracy / Petra Publishing a Chyngor Llyfrau Cymru am y cyfle gwych yma. Cofiwch brynu ein llyfr!

gan Evie J, Tomos R, Ciara W Blwyddyn 6

Gwobr Ansawdd Genedlaethol Ysgolion Iach

Ym mis Tachwedd, daeth ymwelwyr i'r ysgol i weld sut ydyn ni'n cadw'n iach ac yn hapus ac i weld os ydyn ni'n haeddu Gwobr Ansawdd Genedlaethol. Mae hi wedi bod yn daith hir i gyrraedd y nod; mae'n rhaid sicrhau bod pawb yn yr ysgol yn gwybod sut i gadw'n iach trwy olchi dwylo a chadw'n lân. Mae'n rhaid i ni edrych ar ôl yr amgylchedd trwy ddosbarthu gwastraff yn gywir, edrych ar ôl ein byd natur a cherdded i'r ysgol gymaint â phosib. Mae'n bwysig i ni yfed digon o ddŵr a chadw ein poteli yn lân yn ogystal â bwyta'r bwydydd cywir. Rydym ni wedi dysgu sut mae'r ymennydd yn gweithio er mwyn edrych ar ôl ein hiechyd meddwl; mae'n bosib gwneud hyn trwy ymdawelu, canolbwyntio ar anadlu neu ymarfer tamaid bach o yoga. Mae angen ysgol hapus a bywiog sy'n helpu ni i dyfu'n iawn trwy gofio'r gwerthoedd "Parch, Parodrwydd, Perthyn". Diolch byth, roedd yr ymwelwyr yn hapus i ddweud ein bod ni'n ysgol iach ac wedi rhoi'r wobwr i ni.



gan Tomos R a Tegan, Blwyddyn 6

Cariad @ Iaith

Yn ysgol Penalltau, rydym ni'n caru'r Gymraeg! Mae criw y Dreigiau wedi bod wrthi yn trefnu gweithgareddau i ddathlu'r iaith Gymraeg, fel dydd Miwsig Cymru, cystadleuaeth dawnsio i fandiau Cymraeg, chwarae cerddoriaeth yn y coridorau, gwobrwyo'r plant sy'n defnyddio'r Gymraeg yn yr ysgol, yn y tŷ ac yn y gymuned a rhannu'r iaith trwy weithgareddau ar y cyd gydag ysgolion Saesneg yr ardal.

Trefnon ni ddiwrnod Gwisgo Coch ar ddydd Sant Ffolant a gofyn i bawb ysgrifennu pam maen nhw'n caru'r iaith er mwyn creu coeden gariad.

Roedd plant wedi dod â rhodd i'r ysgol er mwyn i ni sefydlu caffis Cymraeg fesul dosbarth yn yr hanner tymor nesaf. Rydyn ni wedi codi bron i 200 o bunnoedd!

Mae llawer mwy o syniadau gyda'r Dreigiau i annog y plant a'r gymuned i ddefnyddio'r iaith Gymraeg. Cofiwch siarad iaith eich gwlad!



gan Rorey ac Isla, Blwyddyn 6.

Trip Blwyddyn 5 a 6 i Abernant

Ddydd Llun y 10fed o Chwefror, aethom ni ar gwrs preswyl i Abernant, Llanwrtyd. Aeth 43 o blant i aros yn y gwesty a chymryd rhan mewn gweithgareddau anturus a bythgofiadwy. Cawson ni brofi'r wifren wîb, abseilio, canŵio a llawer mwy o sesiynau ardderchog!

"Fy hoff weithgaredd i oedd y llwybr dall, er gwaetha'r mwd," meddai Keelan, "oherwydd roedd rhaid i ni wrando ar ein partner ac ymddiried ynddo". "Mwynheuais i adeiladu rafft," meddai Eve, "achos bod yr hyfforddwr yn llawn hwyl ac roedd rhaid gweithio fel rhan o dîm."

Roedd y tywydd yn amrywiol iawn tra'n bod ni'n aros yno: cesair, gwynt, eirlaw, glaw ac ysbeidiau heulog.

Roedd rhaid i ni lapio'n gynnes a brwydro trwy'r gwynt! Roedd y gwesty ei hun yn iawn a'r bwyd yn flasus gyda digon o ddewis. Ond y gweithgareddau gwahanol oedd yn ein cyffroi ni!

gan Caitlin Davies a Tomos



Harri Hipo


Yn ein dosbarth ni, sef Dosbarth Guto Nŷth Bran, mae tegan o'r enw, "Harri Hipo". Mae e'n ein helpu ni i gadw'n iach am ei fod e'n ein dysgu ni sut i olchi'n dwylo yn iawn. Mae rhaid i ni olchi ein dwylo cyn bwyta, ar ôl tisian ac ar ôl i ni fynd i'r tŷ bach. Hefyd, mae rhaid golchi dwylo cyn coginio ac ar ôl chwarae tu fas. Mae germau ar ein dwylo ac mae rhain yn gallu rhoi bola tost i ni.

Mae Harri Hipo yn mynd adref gyda phlentyn bob penwythnos er mwyn

cadw'r teulu'n iach. Rydym ni'n caru dysgu'r rheolau a darllen llyfrau Harri yn y tŷ gyda Mami a Dadi. Diolch i ti Harri Hipo!



gan Callum a Harriet, Blwyddyn 1.



Roedd Clwb Darllen Cwmni yn edrych ymlaen yn eiddgar i rifyn diweddaraf anturiaethau Jeff Evans. Mae cyfres ditectif John Alwyn Griffiths wedi profi yn boblogaidd gyda'r criw prynhawn dydd Llun. Dyma'r ail rifyn o'i eiddo i ni ei drafod. Hwn oedd "llyfr gosod" cynta'r flwyddyn a ddewiswyd fel canlyniad i sawl aelod yn darganfod "Dan Law'r Diafol" yn eu sanau Siôn Corn.

Wrth drafod llyfr y mae'r mwyafrif yn ei fwynhau mae llai i'w ddweud, ond nid felly y tro hwn. Roeddem yn cytuno fod y stori yn rhedeg yn llyfn, gyda digonedd (ond dim gormod) o ail adrodd i sefydlu'r cymeriadau niferus yn y cof. Caiff y llofrudd ei ddarganfod sawl pennod cyn y diwedd sydd yn cynnig cyfle i ddatgelu'r cefndir a'r rheswm dros ei droseddau.

Mae'r rhan hwn o'r llyfr yn drist ac yn dywyll a mwy nag un o'r grŵp yn ei gael yn rhy gryf. Mae'n sicr yn ddiweddglo gwahanol i'r arfer ac efallai ddim at ddant pawb.

Awgrymwyd nad oedd y plot yn gredadwy a rhai o'r llwybrau nad oeddynt i weld yn arwain i unlle. Roedd teimlad hefyd fod y llun ar y clawr yn rhoi gormod i ffwrdd efallai. Dyw pawb ddim yn hoff iawn o lyfrau ditectif.

Nofel swmpus yw hon a John Alwyn Griffiths yn cymryd arno i ymosod ar nifer o sefydliadau cyhoeddus yn ffyrnig. Gyda dros 350 o dudalennau mae "Dan Law'r Diafol" yn hir am nofel Gymraeg ond mae pob tudalen yn ennill ei phlwyf ac yn sicr yn werth ei darllen. Rhewch gynnig arni, chewch chi mo'ch siomi.

Dewch atom y mis nesa i drafod "Myfi, lolo" gan Gareth Thomas. Mae croeso cynnes yn eich disgwyl.

FFORWM HANES CYMRU

Mewn llythyr at Kirsty Williams AC, Gweinidog Addysg Cymru, mae Fforwm Hanes Cymru wedi gresynu at ei datganiad yn honni nad oes "Hanes Cymru" ond fod "sawl hanes Cymru". Gwnaeth hyn wrth gyflwyno cwricwlwm newydd i ysgolion Cymru. Mae'r Gweinidog hefyd wedi gwrthod cynnwys canllaw i athrawon ac ysgolion ar gyfer y Cwricwlwm Cenedlaethol newydd a fyddai'n nodi y dylent ddysgu corff cyffredin o wybodaeth am hanes Cymru.

Dywed y Fforwm, sydd yn cynrychioli nifer o gymdeithasau hanes yng Nghymru, fod yr ymagweddiad hwn i'w weld yn glir yn y Cwricwlwm newydd gan fod sôn parhaus am "gymdeithasau" a "chynfein" ond nid oes un cyfeiriad at "genedl".

Dywedodd llefarydd "Mae Fforwm Hanes Cymru yn hollol ymwybodol o'r gwahanol hanesion sydd gan Gymru ac adlewyrchir hynny yn ein haelodaeth ond rydym hefyd yn ymwybodol o'n hanes **fel cenedl** a phwysigrwydd hynny wrth fyw yn y Gymru gyfoes ac wrth edrych at ddyfodol ein gwlad.

Gresynwn hefyd o weld yn y rhestr o "arbenigwyr" a restrwyd fel y rhai a ystyriodd y Gweinidog wrth benderfynu ar y cwricwlwm nad oes sôn am yr adroddiad "Y Cwricwlwm Cymraeg, hanes a stori Cymru" (2013) gan Dr Elin Jones. Ni ystyriwyd y gwaith pwysig hwn, a oedd yn delio'n benodol gyda'r pwnc o dan sylw ac a fyddai wedi rhoi arweiniad clir iddi hi ar sut i gyflwyno stori Cymru i'r plant sydd yn byw yn y wlad hon. Gofynnwn i chi fynd nôl at yr adroddiad hwn i'ch goleuo."

Bydd disgwyl i bob ysgol lunio ei chwricwlwm ei hunan ond mae'r Fforwm yn gofyn i'r Gweinidog sicrhau fod y canllawiau a fydd yn amlinellu methodoleg ar gyfer dewis cynnwys y cwricwlwm yn sicrhau fod pob disgybl yng Nghymru yn derbyn gwybodaeth am brif ddigwyddiadau cenedlaethol Cymru.

Mae'r Fforwm yn dweud wrth Ms Williams: "Mae'r cwricwlwm i fod i sicrhau fod gennym ddinasyddion gwybodus yng Nghymru ond, wrth wadu gwybodaeth sylfaenol am eu gwlad ac wrth wadu bodolaeth y fath wybodaeth, byddwch yn gwneud cam mawr â nhw a cham mawr â Chymru."

Os am ragor o wybodaeth am yr erthygl ar dudalen 12 ac ateb: Cysylltwch â fforwmhanes@gmail.com

Dolenni perthnasol Cwricwlwm Cymru: <https://llyw.cymru/cwricwlwm-ac-asesu>

Ymatebion i argymhellion adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, sef Addysgu Hanes, Diwylliant a Threftadaeth Cymru <http://www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s97091/Ymateb%20Llywodraeth%20Cymru.pdf>

Y Sioe Ffasiynau

Fe gawsom noson wrth ein bodd yn cwrdd yn Ysgol Penalltau'r mis yma gyda'n Sioe Ffasiwn. Croesawyd sawl ffrind newydd i'n plith a'r gobaith yw eu bod wedi mwynhau 'r noson ac y dôn nhw'n aelodau o gangen Cwm Rhymni Merched Y Wawr. Her y noson oedd gwario dim mwy na £10 punt mewn siop elusen ar gyfer y noson ffasiwn ac yna arddangos y wisg ar y 'catwalk!'

Crëwyd awyrgylch pwrpasol ac effeithiol gydag arddangosfa syml, o frethyn, cosynnod melyn, golau lamp, amrywiaeth o gylchgronau ffasiwn megis Vogue, a cherddoriaeth addas Gymreig yn gefndir i'r cyfan. Cafodd pawb gyfle i arbrofi Mocktails y Noson oedd ar thema "Cwm Rhymni" a chynigwyd amrywiaeth o focktails o:

Mocktail Cawr Gilfach, Mocktail Pimms Penalltau hyd at Mocktail Ar Lannau Afon Rhymni.



Cychwynnwyd y noson gyda phennill syml:

Mae rhai yn canmol ARMANI,
Eraill yn canmol GUCCI,
Ambell un yn darllen VOGUE
ond mwy yn derbyn "CWMNI"

Y gorau yw eich steil eich hun
Boed mini neu ffrog hir
Ymlaen â ni i'r noson
Mwynhewch steil a ffash GWAWR Cwm ni!

Fe gerddodd deg model smart lawr y catwalk gan arddangos eu gwisgoedd a thrafodwyd tipyn am hanes y dewisiad.

Roedd pawb yn edrych yn ddeniadol gyda phwyslais ar ategolion hefyd. Sbri oedd hel atgofion am y ffasiwn a fu gan gynnwys cot croen dafad y "60au"!

Cawsom hwyl wrth drafod y cyfleoedd i'w defnyddio: boed achlysuron dathlu neu gefnogi mudiad arbennig megis Y Syffragets.

Diddorol oedd clywed hanes Ann Walker yn

sôn am ffrog a mantell Brenhines y Carnifal yn y 60au cynnar. Cawsom fodd i fyw wrth iddi hi a Mo Potter arddangos y wisg hyfryd.

Noson hwylus, hamddenol!

Diolch i bawb a fu yn rhan ohoni.

Gobeithio bydd y siopau elusennau o Benarth i'r Bontfaen a'r siopau lleol yn elwa o'n sbri siopa a'n Sioe Ffasiwn!

Gan edrych mla'n at yr un nesa'.

Dilys Williams



Colofn Dafydd Islwyn

Ni ddaeth englyn Nadolig i law mis Rhagfyr o Bendre, Rhydlewis. Dros y blynyddoedd, un gan Dai Rees Davies, Dai Pendre, oedd y cyntaf i'm cyrraedd. Llynedd, ers dechrau mis Awst, bu Dai yn ddifrifol wael ac wythnos cyn y Nadolig bu farw.

Mae gan Gwm Rhymni fymryn o hawl i gofio Dai. Yn Y Genedlaethol, Cwm Rhymni, 1990, yr enillodd ei wobwr gyntaf yn yr eisteddfod. Testun yr englyn ysgafn oedd 'Barddas'. Rhannodd y wobwr â Dafydd Wyn Jones, Aberteifi. Dyma'r englyn,

Eu baban yw Hunllef Bobi - a'u camp
Yw'r caeth flodeugerddi;
Cenhadon pob barddoni,
A Maffia'n llenyddda ni.

Dai yn siarad o brofiad fel aelod o bwyllgor gwaith y Gymdeithas Gerdd Dafod! Daeth yn gydradd gyntaf hefyd ar gyfres o Dribannau: 'Dyddiau'r Wythnos'. Dyma ei driban i Ddydd Sul.

Dydd Sul fe gawn ddiengyd
O afael rhuthro bywyd
Drwy arddio a thacluso'r lle
O ie! Mae'n Sabath hefyd.

Dros y blynyddoedd enillodd Dai un deg dwy o wobrau yn y Genedlaethol. Pum gwaith ar yr englyn ysgafn a thair gwaith ar y delyneg - y tro olaf, y llynedd yn Llanrwst. Methodd â bod yno i dderbyn ei wobwr oherwydd ei waeledd.

Sôn am delynegion Dai, y gyntaf ddaw i'r cof ydy 'Enw', a weithiodd fel tasg ar Dalwrn y Beirdd flynyddoedd yn ôl,

John Thomas oedd ei enw
'Run fath a'i hen ddad-cu
John Thomas ar bob ffurflen
A thystysgrifau lu.
Ond heddiw ym Mryn Seion
gan lenwi'r llofft a'r llawr,
mae'r werin gymwynasgar
yn cofio John Pant Mawr.

Cyhoeddwyd y delyneg yng nghyfrrol Dai, 'Y Dwys a'r Digri', a gyhoeddwyd yn 2007.

Bu ef yn aelod o dîm Talwrn y Beirdd Ffostrasol o'r cychwyn cyntaf tan ddechrau Mai y llynedd. Ei gyfraniad olaf oedd telyneg, 'Tanio'. Arferai Gerallt ddyfarnu englyn Dai iddo yn aml ar y Talwrn, englyn a gyhoeddwyd yng nghyfrrol 4 'Talwrn y Beirdd'.



I Gerallt

Un nodyn bach beirniadol; o agor
Dy bigion talyrnol.
Dryswch i feirdd Ffostrasol
Yw i'n weld mor brin yw'n hôl!

O 1984 tan 2013 bu Dai yn aelod dibynadwy o dîm Ceredigion yn Ymryson y Beirdd y Genedlaethol. Un yn unig a gollodd, 1998, oherwydd salwch. Ei dasg gynta yn yr Ymryson oedd ateb y llinell

Mi gredaf mai gwir ydyw
Atebodd, : Ond ar fy ngair anwir yw.

Yn y Genedlaethol ym Mro Madog yn 1987 roedd yn aelod o dîm Ceredigion, yr unig dîm i gael deg marc am englyn cywaith ynddi. Testun yr englyn oedd 'Ffrae Mewn Caffi' a chafwyd englyn cwbl annisgwyl, Roedd y deuddeg yn cega – braidd o gylch
Bwrdd y gwin a'r bara
Wedyn gwelodd un yn dda
I dalu'r ddyled ola.

Dysgodd Dai Pendre'r cynganeddion yn nosbarthiadau'r prifardd T. Llew Jones. Mae englyn coffa iddo yn un gafaelgar,

Er i'r haul droi i'r heli – un hwyrnos
Ar ôl diwrnod tanlli
Rhywfodd mae'n dal i roddi
Ei naws i'n cynhesu ni.

Cofiaf i Dai ymweld â Chwm Rhymni ddwywaith. Bu'n teithio i lawr y Cwm pan ymwelodd Cymdeithas Ceredigion un flwyddyn ar ei thaith flynyddol. Bu yn y gynulleidfa yn festri Bethel, Caerffili, pan recordiwyd dwy raglen o Dalwrn y Beirdd. Daeth fel eraill o ardal Rhydlewis i gefnogi un o dimau De Ceredigion, Tan y Groes. Y noson honno cafwyd cwpled cofiadwy gan Emyr Oernant, ffrind mawr i Dai:

Iesu Grist, mae eisiau grant
Arnaf i ffermio'r Oernant.

Dydd Gwyl Dewi hapus i chi i gyd! Sut fyddwch chi'n dathlu Gwyl Dewi tybed? Fyddwch chi'n gwisgo cenhinen, neu genhinen Pedr? Fyddwch chi'n bwyta cawl cennin ac yn mynd i eisteddfod neu dwmpath dawns? Mae Dydd Gwyl Dewi yn ddiwrnod i ymfalchïo yn ein gwlad ac mae llawer o gerddi yn sôn am gariad y beirdd at Gymru.


Dyma ddarn o hen gerdd gan Eifion Wyn, cerdd oedd yn boblogaidd iawn yn ei dydd. Mae'r bardd yn dweud mai Cymru yw'r wlad harddaf yn y byd, gwlad ble mae cerddoriaeth a chrefydd yn bwysig a gwlad sy'n hawdd ei charu.

Paradwys y Bardd

*Cymru fach i mi -
Bro y llus a'r llynnoedd,
Corlan y mynyddoedd,
Hawdd ei charu hi.*

*Son am diroedd hud -
Tecach na'r rhai hynny
Ydyw erwau Cymru,
Gwell na broydd byd.*

*Cymru fach i mi -
Cartre crwth a thelyn,
Cysegr salm ac emyn,
Porth y nef yw hi.*



*dathlu : celebrate
ymfalchïo : take pride in
llus : whinberries
cysegr : a holy place*

*cenhinen (cennin) : leek(s)
yn boblogaidd : popular
corlan y mynyddoedd : in the fold of the mountains
porth y nef : the gateway of heaven.*

*cenhinen Pedr : daffodil
yn ei dydd : in its day*

*twmpath dawns : barn dance
crefydd : religion
tiroedd hud : magic lands*

Atebion Posau Tudalen 7



Cefnogi darpar rieni a rhieni newydd gyda Catherine John Swyddog Cymraeg i blant Caerffili

Mae Cymraeg i Blant yn gynllun sydd yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a'i reoli gan Mudiad Meithrin er mwyn rhannu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i rieni wrth ddewis gofal plant ac addysg Gymraeg.

Dyma ddywed Catherine John, Swyddog Cymraeg i blant Caerffili, Mudiad Meithrin. Mae hi'n dod o Ben-y-bont:

"Rhan fawr o'r swydd yw annog rhieni i ddanfôn eu plant i'r ysgolion Cymraeg yn y dyfodol, felly meddyliais ei bod yn swydd addas iawn imi gan fy mod yn deall unrhyw feddyliau neu bryderon a allai godi gan y rhieni hynny nad ydyn nhw'n gallu siarad yr iaith, ar ôl i fi ddysgu Cymraeg trwy lwybr ail iaith fy hun.

"Strategaeth Gweithgareddau Cenedlaethol Cymraeg yw drwy gynnal ystod eang o weithgareddau dengar i rieni newydd fel tylino babi, ioga babi a sesiynau arwyddo a chân ac rydym yn agor y drws yn gynnar iddynt o ran manteision gofal ac addysg Gymraeg. Rydym yn fwrriadol yn estyn allan i gynulleidfa newydd o rieni fel eu bod yn dod i weld ei bod yn bosib cyflwyno'r Gymraeg i'w plant drwy fynychu'r grŵp Ti a Fi a'r Cylch Meithrin Lleol cyn trosglwyddo draw i addysg cyfrwng Cymraeg.

"Pan ddaw'r flwyddyn newydd, byddaf yn cynnal sesiynau fy hun ar draws Sir Caerffili i fabis a phlant cyn-ysgol, tra'n ymweld â chlinigau cyn-genï yn yr Ysbyty leol i ddenu mwy o rieni draw i'r sesiynau. Yn y sesiynau, byddaf yn rhoi gwybodaeth am addysg Gymraeg, gan sôn am y budd a ddaw yn ei sgîl. Hyd yn hyn, dwi wedi bod yn cysgodi swyddogion eraill o gwmpas de-ddwyrain Cymru, felly mae hyder gyda fi i gynhyrchu sesiynau llwyddiannus a all gael effaith gadarnhaol ar yr ardal.

Yn fy marn i, yr her fwyaf yw dylanwadu ar rieni i ystyried addysg Gymraeg i'w plant, dw i'n ymwybodol ei bod yn benderfyniad mawr iddyn nhw ond gobeithio y byddaf yn gallu dylanwadu'n gadarnhaol arnyn nhw!

"O ran fy mywyd cymdeithasol, mae fy nghariad a finnau'n hoffi mynd i weld Cymru yn chwarae pêl-droed, sef rhywbeth rydw i wedi

mwynhau ers pan oeddwn yn ifanc pan oedd fy rhieni yn mynd â mi a fy chwaer i weld Caerdydd bob penwythnos. Hefyd, dw i'n treulio llawer o amser gyda fy ffrindiau, p'un ai'n siopa neu'n cymdeithasu gyda'n gilydd dros goffi. Dw i'n cadw'n heini a newydd ymuno â chlwb rhedeg yn fy ardal, felly dw i'n siŵr y bydd yn dod yn rhan fawr o fy mywyd yn ddigon buan!

"Hoffwn i greu effaith yn fy sesiynau, drwy gynnig sesiynau hwyliog a chynhwysol. Mae'n gyfnod arbennig yn eu bywydau, felly byddai'n grêt eu helpu ar yr adeg hon. Ynghyd â hyn, gobeithiaf gael effaith ar faint o bobl sy'n siarad Cymraeg yng Nghaerffili, mae mor bwysig yng Nghymru heddiw gyda'r nod i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Felly hoffwn i gyfrannu at hyn.



CYMRAG I Blant
For Kids

Am fwy o wybodaeth am grwpiau cefnogi Cymraeg i blant yn:

Caerffili/Ystrad Mynach/Bargod/Rhymni/Tredegar Newydd Cysylltwch gyda Catherine John ar 07733 422839 a gweler y dudalen nesa am amserlen Catherine.

Catherine.john@meithrin.cymru

Facebook Cymraeg i blant Caerffili [meithrin.cymru](https://www.facebook.com/meithrin.cymru)



CLWB DAWNS DIRI

Nos Fawrth

5:00pm - 6:00pm

Blwyddyn 2+

£3 y sesiwn

@ Neuadd Eglwyd Holy Trinity

Ystrad Mynach, CF82 7DR

Does dim angen cofrestru,
dewch i sesiwn laf y flwyddyn ar
21ain o Ionawr.



Cyfluoedd i ddawnsio ar
lwyfan Ffiliffest a
Ffair Nadolig Llancaich Fawr

Yn ystod y tymor
Cysylltwch am rhagor o fanylion

bethanjones@mentercaerffili.cymru 01443 820913

Cwrs Crochenwaith

i oedolion

Cwrs 6 sesiwn ar ddydd Mawrth dros mis Mawrth
gyda'r crochenydd Matt Jones.

Dyddiadau:

Mis Mawrth

3 + 10 + 17 + 24 + 30 + 31

18:00-20:00

@ Groundworks Caerffili, Bryn Rd,
CoedDuon NP122BH

£40

I bwcio lle ac am rhagor o wybodaeth:

bethanjones@mentercaerffili.cymru 01443820913



Grwpiau Cymraeg i Blant Groups Caerffili / Caerphilly (AM DDIM / FREE)

Dydd Llun / Monday Dechrau / Starting 13.01.20	10.00 - 10.45am	Llyfrgell Caerffili / Caerphilly Library	Tylino Babi / Baby Massage
	10.45 - 11.30am	Llyfrgell Caerffili / Caerphilly Library	Stori a Chân / Welsh Story and Rhyme
Dydd Mawrth / Tuesday Dechrau / Starting 14.01.20	10.30 - 11.30am	Llyfrgell Ystrad Mynach Library	Tylino Babi / Baby Massage
Dydd Mercher / Wednesday Dechrau/Starting 8.01.20	10.00 - 11.00am	Llyfrgell Rhymni / Rhymni Library	Ioga Babi / Baby Yoga
Dydd Iau / Thursday Dechrau / Starting 16.01.20	10.00 - 11.00am	Llyfrgell Bargoed Library	Stori a Chân / Welsh Story and Rhyme
	11.15 - 12.00pm	Llyfrgell Bargoed Library	Ioga Babi / Baby Yoga
Dydd Iau / Thursday Dechrau / Starting 16.01.20	2.00-2.45pm	Canolfan Adnoddau a Gwybodaeth Y Rhosyn Gwyn / Whiterose Information & Resource Centre, Tredegar Newydd / New Tredegar	Stori a Chân / Welsh Story and Rhyme

Addas i Ddysgwyr, Rhieni Di Gymraeg a Siaradwyr Cymraeg
Suitable for Welsh Learners, non Welsh Speaking parents and Welsh Speakers

Cymraeg i Blant
llyw.cymru/cymraeg

catherine.john@meithrin.cymru

07733422839

f Cymraeg i Blant Caerffili



I Blant
For Kids



MAE

CÔR CWM NI

YN CHWILIO AM ARWEINYDD NEWYDD

YMARFER BOB NOS FAWRTH

YN


CAPEL BRYN SEION, YSTRAD MYNACH

FFANSI HER NEWYDD?

DIDDORDEB?

Cysylltwch

corcwmni@gmail.com / 07815 142729



www.corcwmni.cymru

Clwb Darllen Cwmni

Llawr Cyntaf
Llyfrgell Newydd Caerffili

2:00 o'r gloch

2ail o Fawrth: "Myfi, Iolo" Gareth Thomas

6ed o Ebrill: "Gwawr Goch ar y Gorwel"

Gwen Parrott

4ydd o Fai: "Gwirionedd" Elinor Wyn
Reynolds

penneyje961@gmail.com

Croeso Cynnes i Bawb

Clwb Darllen Dysgwyr Caerffili

Cyfarfod nesa: Dydd Gwener 13 Mawrth

Y Gwledydd Bychain –

gan Bethan Gwanas

2 o'r gloch yn Llyfrgell Caerffili

Cofiwch hefyd am:

Y bore coffi ym Medwas, Caffi'r Graig

bob dydd Llun o 10.30 ymlaen

A'r bore coffi yn y Malcolm Uphill

(Wetherspoons), Caerffili

bob dydd Mawrth o 10 o'r gloch ymlaen

www.cwmalele.cymru



CWMALELE

Sesiynau bob nos Fawrth

Clwb Rygbi Penallta 6:00-8:00

£5 y sesiwn

Bob Nos Fawrth

7:00yh

Côr Cwm Ni

Capel Bryn Seion, Ystrad Mynach

Croeso i Aelodau Newydd



Mawrth 28 2020

10:00-12:00

Neuadd Eglwys St Gwladys Church Hall,
Bargoed, CF81 8RP

Cwmni



Cysylltwch â ni ar
FACEBOOK

Teipiwch i mewn enw'r papur
ac fe welwch y logo

Cwmni

*Dyma gyfle i chi fynegi barn.....
cyfrannu darn o newyddion.....
dweud jôc,,,,,,,,,,,, awgrymu
sut allwn ni wella'r papur !!!*

Beth amdani?

Cwmni

Hanes Cwm Ni

5/3/20 Allan Cook

Pererindod

7/5/20 Dafydd Islwyn

Dafydd Benwyn

11/6/20 Dr J January-McCann

Casglu Enwau Lleoedd Cymru



Clwb Rygbi Penallta

Ystrad Mynach CF82 7EP

7:00yh

Am ragor o fanylion:

helen.young@coleggwent.ac.uk

01495 333702

Eisiau dysgu mwy am hanes Cymru? Dewch i wrando. Croeso i bawb.

Addas ar gyfer siaradwyr
CANOLRADD / UWCH /
HYFEDREDD / RHUGL



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Gwent



Cyngerdd y Pasg An Easter Concert gyda | with

C.Ô.R

ARWEINYDD | CONDUCTOR
OSIAN ROWLANDS

CYFEILYDD | ACCOMPANIST
JEFFREY HOWARD

REQUIEM FAURÉ

5 | 4 | 2020

7.30pm

Tocynnau | Tickets £10

Eglwys Martin Sant | St Martin's Church
Caerffili

Cerddoriaeth gan | Music by:
Stainer | Lotti | Mendelssohn | Rheinberger | Stanford
Mascagni | Howard

Tocynnau | Tickets:
Osian Rowlands - 07980 302285
osian_ilyr@hotmail.com

Elw tuag at



Canolfan Ganser Felindra
Velindre Cancer Centre

Merched y Wawr Cwm Rhymni



Dydd Mercher, 18^{fed} o Fawrth

Bowlïo Deg

Canolfan Bowlïo Deg
Parc Nantgarw CF15 7QX

Cwrdd am 11.30 wrth y brif fynedfa

Manylion prisau ar ei gwefan, yn dibynnu ar sawl
gêm hoffwn chwarae

Lluniaeth ysgafn yn lleol wedi'r hwyl

Croeso i aelodau hen a newydd
a ffrindiau'r gangen.

Addas iawn i ddysgwyr

Cysylltwch â gaynorw555@gmail.com



Cwrw da Cymraeg a Gwasanaeth Cymraeg



Uned B27 Ystâd Ddiwydiannol
Trefforest CF375YB

Ar agor pob dydd Gwener
09:00 – 17:00.

www.twtlol.com

Talu Trwy Orchymyn Banc

Diolch o galon i'r nifer ohonoch sydd wedi bwrw ati i lenwi ffurflen i dalu i mewn i'n cyfrif newydd.

Gobeithiwn eich bod am barhau i dalu fel hyn a gawn ni apelio at y sawl sydd ddim wedi cael y cyfle i wneud hynny eto i gwblhau'r ffurflen isod mor gynted a bo modd? Oherwydd yr amser mae'r banciau yn cymryd i weithredu byddem yn ddiolchgar i chi beidio gorchymyn y taliad cyn mis Ebrill.

Hoffwn bwysleisio bod angen i chi sicrhau bod eich gwarant banc blaenorol wedi'i ganslo.



Cwmni

Gwarant Archeb Barhaol

Standing Order Mandate

I'r Rheolwr

To the Manager

.....Banc/ Cymdeithas Adeiladu *Bank/Building Society*

Cyfeiriad y Banc.....*Bank Address*

Debydwch o fy nghyfrif £10 ar y 3ydd o fis
bob blwyddyn gan ddechrau ym mis 202..... neu
nes y byddaf yn eich hysbysu'n wahanol.

*Please debit from my account £10 on the 3rd of
(month) annually starting in the month of202.....
or until I advise you to the contrary*

Yn daladwy i:

Payable to:

Banc	Enw'r Cyfrif	Rhif Didoli	Rhif y Cyfrif
Barclays, Caerffili	Cwmni	20—98—68	13980030

Enw(au) ar y Cyfrif

Name(s) on the Account

— — — — — Cod Didoli *Sort Code*

Rhif y Cyfrif/ *Account Number*

Eich Cyfeiriad

Your Address:

.....
.....

Cod Post *Post Code* Rhif Ffôn/*Phone No.*.....

Llofnod *Signature:*.....*Dyddiad Date:*.....

Dychweler y ffurflen hon, os gwelwch yn dda at y Trysorydd:

Eyron Thomas, 4 Rolls Avenue, Penpedairheol, Hengoed CF82 8HP
NID i'r Banc.

Paying by Banker's Order

Thanks to many of you who have completed the form to pay into our new bank account.

We hope that you intend to continue paying in this way and can we appeal to those who have not yet had the opportunity to do so to now complete the above form as soon as possible? Because of the time it takes banks to process change we would ask you to ask your bank not to implement the payment before April.

We would emphasise that you need to make sure that your previous banker's order is cancelled.